Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfarfod: | Bwrdd Plismona | |
| | Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTH | |
| | Dyddiad: | 16 Mawrth 2017 | |
| | Amser: | 10:00 – 12:00 | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau**: | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid, SCHTh (PSC) |
| **Hefyd yn Bresennol**: | Yr Arolygydd Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (RhLl)<br>Mrs Lynne Davies, Prosiect Llywodraethu'r Heddlu (PLLH)<br>Yr Arolygydd. Jonathan Rees (JR)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau**: | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| CAM GWEITHREDU CYFARFOD 28/2/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2119** | **Cam Gweithredu: CHTh i roi adborth i'r Heddlu am Bolisi Drafft Cyflau Poeri o flaen Bwrdd Gweithredol yr Heddlu Mawrth 21.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2120** | **Cam Gweithredu: AE i siarad â Huw Meredith yn yr Adran Weithrediadau am gost y nifer o Ddigwyddiadau Darwen 'rydym yn cynnal, a hefyd am gost cynnal dyddiau Darwen ychwanegol.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2121** | **Cam Gweithredu: Y PG a'r DBG i adolygu'r ohebiaeth mewn perthynas â PB 2117 – Ymateb i Sarah Thornton.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2122** | **Cam Gweithredu: AE i gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyllid am roi ffigyrau ar gyfer adennill costau am y cynllun ailhyfforddi Gyrwyr.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2123** | **Cam Gweithredu: Y DBG i gysylltu â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly a'r Prif Uwcharolygydd Richard Lewis am y rhaglen arweinyddiaeth.** | **Cyfredol** |
| **PB 2124** | **Cam Gweithredu: Yr Heddlu i gysylltu â'r Pennaeth Staff am y rhaglen arweinyddiaeth i** | **Cyfredol** |

| | | |
|---|---|---|
| | **sicrhau asio rhwng yr Heddlu a SCHTh.** | |
| **PB 2125** | **Cam Gweithredu: CHTh i roi adborth i'r Prif Gwnstabl ar ôl ei gyfarfod gyda'r Is-gyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl, Tracey Hawthorne.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2126** | **Cam Gweithredu: Y PG i drefnu archwiliad trwyadl i'r system ymhen 9 mis i asesu'r trosglwyddiad.** | **Cyfredol** |
| **PB 2127** | **Cam Gweithredu: Y PG i sicrhau awr ar gyfer y Tîm Cyflwyno'r Cynllun yng nghyfarfod yr URS Chwefror 16.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2128** | **Cam Gweithredu: CHTh i gysylltu â CHTh Alun Michael a dweud bod y mater o gydweithredu wedi cael ei drafod ac y bydd yn ymateb ymhen ychydig.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 16/03/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o Benderfyniadau** | **I'w symud ymlaen gan** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd 28 Chwefror a materion sydd yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

PB 2124 - Cafwyd trafodaeth agored am y prosesau adolygu perfformiad a datblygu a thrafododd y PG a'r CHTh cyflwyno podlediad ar y cyd sydd yn cynnwys y ddau ohonynt yn mynegi pwysigrwydd proses adolygu perfformiad a datblygu. Dywedodd CHTh mai'r digwyddiad adolygu perfformiad a datblygu cyntaf yn y proses yw un y PG.

**Cam Gweithredu: Y PG a'r CHTh i ystyried y syniad o bodlediad.**

**Cam Gweithredu: Cynnal peilot yn SCHTh i gefnogi AD yn eu datblygiadau o ystyried bod oedi yn y proses.**

PB 2110 - Rhoddwyd diweddariad i CHTh am droseddau cyffuriau a chafodd hyn dderbyniad da. Dywedodd y PG y gall Heddlu Dyfed Powys fod yn fwy ymwthiol wrth frwydro troseddau cyffuriau. Cafwyd trafodaeth fer am geisio cyfathrebu'r neges gan fod stori newydd cadarnhaol yn bodoli o fewn y mater. Mae llawer o weithgarwch yn digwydd yn ei gylch ar lefel genedlaethol. Holodd CHTh y Gweinidog Iechyd am y mater hwn.

PB 2120 Ymgyrch Darwen - Mynegodd CHTh ddiddordeb mewn gwybod a fyddai modd ehangu hwn a gofynnodd am gyfarfod gyda'r Uwcharolygydd Huw Meredith a Sue Storch am y mater. Dywedwyd bod y Rhingyll Owen Dillon yn arwain ar Darwen ac yn cysylltu hwn gyda Chadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned; Cyhoeddir dyddiadau Ymgyrch Darwen cyn bo hir.

**Cam Gweithredu: SCHTh i drefnu cyfarfod ar gyfer CHTh gyda'r Uwcharolygydd Huw Meredith a Sue Storch.**

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG drosolwg am faterion sefydliadol. Dywedodd y PG mai nifer y swyddogion sydd wedi eu gwahardd o'u gwaith erbyn hyn yw 5. Cyflwynodd y PG faterion gweithdrefnol gan gynnwys nifer o unigolion coll, achosion niferus o'r Heddlu'n defnyddio gynnau taser ac Ymosodiad yn y Cartref Adran 18.

Cafwyd trafodaeth fer am fater 'Police Now'. Bu cyfarfod rhwng cynrychiolwyr o 'Police Now' â'r PG yr wythnos ddiwethaf ac mae'r PG erbyn hyn yn ystyried y syniad ymhellach yn sgil y cyfarfod.

Dywedodd y PG y bydd yn mynychu dau gyfarfod yn Llundain am faterion Iechyd Meddwl

Cyfeiriwyd at farwolaeth aelod o staff Heddlu Dyfed-Powys a dywedodd y PG fod baneri'r Pencadlys wedi hedfan ar hanner mast i ddangos parch.

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Cenedlaethol

Dywedodd CHTh ei fod wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau Arweinyddiaeth yn Llundain yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cafwyd trafodaeth fer am gysylltiad CHTh â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a'i rôl fel arweinydd portffolio ar gyfer Arweinyddiaeth.

Hysbysodd CHTh y PG fod ei swyddfa'n lobio'n gyson ynglŷn â'r Fformiwla Ariannu gan gynnwys gohebu â'r Arglwydd Bourne o Aberystwyth.

Lleol

Hysbysodd CHTh y PG fod trosglwyddo'r adran Ystadau i SCHTh yn symud ymlaen. Dywedodd CHTh fod pob ymholiad gan staff wedi bod ynghylch materion ymarferol

Dywedodd CHTh fod ei swyddfa yn archwilio posibiliadau i weld a oes grantiau cyfalaf ar gael drwy Lywodraeth Cymru. Mae'n bosib bod grantiau ar gael i sefydliadau datganoledig y bydd SCHTh yn gallu edrych i mewn iddynt.

Dywedodd CHTh wrth y PG na fydd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus tan ar ôl i etholiadau mis Mai.

**Materion yn Codi**

**a) Cynllun Cyflwyno'r Heddlu a Throseddu**

Mynychodd Tîm Cyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throsedd gyfarfod y Bwrdd Plismona i roi diweddariad am y Cynllun. Cyflwynwyd rhai newidiadau wrth ymateb i adborth gan reolwyr URS, gan gynnwys ychwanegu Dinasyddiaeth Gadarnhaol ymysg pobl ifanc, newid y cynllun lliw, a rhoi thema i bob amcan i gysylltu â'r 'Cynllun ar Dudalen' er mwyn sicrhau cysondeb drwyddi.

Dywedodd y tîm eu bod wedi archwilio pob gweithgarwch o fewn y meysydd busnes a dileu dyblygiadau. Eglurodd y tîm bod nifer o weithgareddau o fewn pob amcan yn y Cynllun a chan fod y ddogfen yn ddogfen fyw bydd yn bosib hidlo a chynllunio'r gweithgareddau hyn yn ôl yr angen.

Dywedwyd bod y gall y cynllun gweithio gyda'r system i Welliant parhaus er mwyn dangos gweithgarwch AHEM Heddlu Dyfed-Powys, a gellid ei ddiweddaru bob ychydig o wythnosau.

Dilynodd trafodaeth fer am berfformiad. Mae'r tîm wedi cyfarfod â John Cummins, Paul Clark a Chris James. Cafwyd hyn yn fuddiol a chyflwynodd y tîm ddiweddariad byr am ganlyniadau, Trefniadaeth ac Iechyd a'r posibilrwydd o ymwneud â'r Panel Sicrhau Ansawdd.

**b) Ymgyrch 'Encompass'**

Cafwyd trafodaeth am lythyr gan y Fonesig Vera Baird CHTh o Northumbria oedd yn mynegi pryder am achosion o gam-drin yn y cartref lle mae plant. Mae Ymgyrch 'Encompass' yn sicrhau y bydd yr Heddlu yn mynd at yr ysgol os bydd disgybl wedi bod mewn achos o gam-drin yn y cartref y noson gynt. Mae'r ymgyrch wedi cael ei thrafod gyda'r PGCDD Pam Kelly. Trafododd y Bwrdd dreialu'r cynllun yn Sir Gâr. Bydd y PG yn cael templedi a chynlluniau am yr Ymgyrch iddo gysylltu â phartneriaid.

**Cam Gweithredu: Bydd yr Heddlu'n rhoi diweddariad i CHTh am Ymgyrch 'Encompass'. Daw'r Bwrdd yn ôl i'r mater hwn ymhen pedair wythnos.**

**c) Adran 22A Cytundeb Cydweithio Adolygu Perfformiad a DBG**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol wedi codi rhai materion parthed hwn. Cafwyd trafodaeth am ystyried geirio ymadroddion penodol, ac a oes angen i'r Bwrdd gyflwyno achos mewn ymateb i Heddlu De Cymru.

**Cam Gweithredu: Mae angen mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Cant eu bwydo'n ôl i Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd.**

**Unrhyw fusnes arall**

a) **Llythyr Mark Williams**

**Cam Gweithredu: Ymateb i Mark Williams drwy lythyr gan nodi bod y mater wedi cael ei godi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona.**

b) **Diweddariad Ymgyrch Cymdeithas Noethlymuniaeth Prydain**

Cafwyd trafodaeth am y gwahaniaethu yn erbyn ymarferwyr noethlmuniaeth a ganfuwyd.

**Cam Gweithredu: Ymateb i Gymdeithas Noethlymuniaeth Prydain gan nodi bod y mater wedi cael ei ddwyn at sylw'r PG, a'i drafod, gyda Swyddog Amrywiaeth yr Heddlu.**

c) **Y Cais Trawsnewidiol**

Cafwyd trafodaeth am y cais trawsnewidiol, sydd yn cael ei arwain gan Heddlu De Cymru, sydd â chefnogaeth y pedwar CHTh. 'R oedd y PG yn cefnogi'r cais ond tynnodd sylw'r Bwrdd at y camgymeriadau a'r gwallau trwy esgeulustod o fewn y cais. 'R oedd y cais yn ymwneud ag ymateb amlasiantaeth ac ymyrraeth mewn perthynas â phlant mewn sefyllfaoedd domestig. Trafododd y Bwrdd blant sydd yn dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael mynediad i seicolegwyr clinigol. 'R oedd Sir Gâr yn un o'r ardaloedd peilot. Mae SCHTh yn ceisio dod o hyd i brisiau ar gyfer y seicolegwyr.

Ch) **Gwasanaethau cyfreithiol**

Dymunai'r PG ystyried pob opsiwn ar gyfer y mater hwn yn ogystal â'r Agenda Cydweithio. Trafododd y Bwrdd opsiynau eraill.

e) **Ail-raddio Staff**

Dymunodd Adrian Williams godi hwn a'i nodi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona. Mae'r CHTh yn hapus gyda hyn ond dywedodd petai eglurhad ar gael adeg y penderfyniad gwreiddiol, byddai'r CHTh wedi penderfynu ar y pryd.

**Cam Gweithredu: Nodir yn y fframwaith llywodraethu corfforaethol y bydd y PG yn cyflwyno adroddiadau sefydliadol ddwywaith y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i'r Bwrdd Plismona.**

**Cam Gweithredu: PSC i roi diweddariad i'r PG am yr adroddiadau chwe-misol gofynnol.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/03/17 | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Camau Gweithredu** | **I'w symud** |

| Rhif | | ymlaen gan |
|---|---|---|
| **PB 2129** | **Cam Gweithredu: Y PG a'r CHTh i ystyried y syniad o bodlediad.** | PG |
| **PB 2130** | **Cam Gweithredu: Cynnal cynllun peilot yn SCHTh i gefnogi AD yn eu datblygiadau gan gofio bod oedi yn y proses.** | **Pennaeth Staff** |
| **PB 2131** | **Cam Gweithredu: SCHTh i drefnu cyfarfod i CHTh gydag Uwcharolygydd Huw Meredith a Sue Storch.** | **MH** |
| **PB 2132** | **Cam Gweithredu: Bydd yr Heddlu'n rhoi diweddariad i CHTh am Ymgyrch' Encompass.' Daw'r Bwrdd yn ôl at y mater hwn ymhen pedair wythnos.** | PG |
| **PB 2133** | **Cam Gweithredu: Rhaid ystyried y materion a godwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Cânt eu bwydo'n ôl i Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd.** | CHTh |
| **PB 2134** | **Cam Gweithredu: Ymateb i Mark Williams drwy lythyr gan nodi bod y mater wedi cael ei godi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona** | **MH** |
| **PB 2135** | **Cam Gweithredu: Ymateb i Gymdeithas Noethlymuniaeth Prydain gan nodi bod y mater wedi cael ei ddwyn at sylw'r PG, a'i drafod gyda Swyddog Amrywiaeth yr Heddlu.** | **MH** |
| **PB 2136** | **Cam Gweithredu: Nodir yn y fframwaith llywodraethu corfforaethol bod y PG yn cyflwyno adroddiadau sefydliadol ddwywaith y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i'r Bwrdd Plismona** | PG |
| **PB 2137** | **PSC i roi diweddariad i'r PG am yr adroddiadau chwe-misol gofynnol.** | **PSC** |